



## B17: Gwers 4: Cestyll Consentrig

### Nod y Wers: Adnabod nodweddion Cestyll Consentrig a thrafod pam eu bod yn effeithiol



Tasg 1: Disgrifiwch y lluniau o'r cestyll consentrig uchod.


Yn y cestyll consentrig mae yna...

- .
- .
- .
- .

Yn y tabl, nodwch nodweddion tebyg a gwahanol cestyll mwnt a beili, cestyll cerrig a chestyll Consentrig.

TEBYG	GWAHANOL
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Waliau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae waliau cestyll mwnt a beili wedi eu gwneud o bren ond <b>yn wahanol</b> mae cestyll cerrig a chestyll consentrig wedi eu gwneud o gerrig.</li> </ul>

Yn dilyn rhyfel y Croesgadau, a ddigwyddodd rhwng 11eg a 13eg ganrif datblygwyd cestyll gwahanol. Daeth milwyr o'r rhyfel hwnnw (yn y dwyrain canol) a syniadau i Brydain sef y cestyll consentrig.



Ystyr y gair consentrig yw un cylch y tu mewn i gylch arall, roedd hyn yn cyfeirio at waliau'r castell hwn. Roedd y gorthwr (prif adeilad) yng nghanol y castell ac wedi'i amgylchynu gan waliau trwchus iawn ac uchel â thyrâu cornel crwn. Y tu allan i hyn roedd y beili allanol â wal trwchus crwn arall ar gyfer amddiffyn. Er mwyn rhoi rhagor o amddiffyniad ychwanegwyd ffos fel arfer.

Y castell cyntaf ym Mhrydain i gael ei adeiladu yn yr arddull hwn oedd Caerffili yn Ne Cymru. Cafodd ei adeiladu gan Gilbert de Clare rhwng 1268 a 1272. Roedd angen castell cryf arno i amddiffyn y tir yr yn y De rhag ymosodiad gan yr arweinydd Cymreig Llywelyn ap Gruffydd. Cymerodd mwy o amser i frenhinoedd Lloegr sefydlu rheolaeth yng Ngogledd Cymru ond sicrhaodd Brenin Edward I hyn ar ol 1283. Gwnaeth hynny drwy adeiladu cyfres o gestyll consentrig enfawr, a oedd bron yn amhosib i ymosod arnynt.

Adeiladwyd cestyll Rhaglan, Biwmares, Caernarfon, Conwy a Harlech i gyd gan Edward I i sicrhau ei rym yng Nghymru. Mae Biwmares yn cael ei ystyried yn gyffredinol yn un o'r cestyll gorau yng Nghymru yn y cyfnod hwnnw. Gweithiodd mwy na 2,000 o lafurwyr ar Gastell Biwmares ond o edrych arno heddiw mae'n cael ei ystyried yn aml yn llai trawiadol na chestyll eraill fel castell Harlech - yn gyffredinol oherwydd na chafodd ei gwblhau.

**Lefel Efydd:** Disgrifiwch beth oedd prif nodweddion cestyll consentrig.

.....

.....

.....

.....

**Lefel Arian:** Esboniwch pa neges oedd Edward I yn ceisio anfon i'r Cymry wrth adeiladu'r cestyll yma.....

.....

.....

.....

**Lefel Aur:** Yn eich barn chi, a oedd adeiladu cestyll consentrig yn effeithiol wrth reoli'r Cymru? Pam?

.....

.....

.....

.....

.....

### Geirfa

Trwchus	<i>Thick</i>	Arddull	<i>Style</i>
Amddiffyn	<i>Defend</i>	Adeiladu	<i>Build</i>
Rheoli	<i>Control</i>	Llafurwyr	<i>Laborers</i>

